# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Tachwedd 2004

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr anawsterau a allai wynebu'r lluoedd amddiffyn o ran cynnal ymarferion ar diroedd yng Nghymru. (WAQ39671)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datganoli pwer ar hela i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac, os ydyw, a wnaiff fanylu ar y trafodaethau hynny. (WAQ39670)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau â'i gydweithwyr yn y Cabinet ynghylch y manteision - o safbwynt chwaraeon yng Nghymru - o roi'r cyfle i blant ysgol fynd i gemau rygbi rhyngwladol am bris rhatach neu am ddim, ac, os ydyw, a wnaiff fanylu ar y trafodaethau hynny. (WAQ39662)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau ag Undeb Rygbi Cymru ynghylch darparu tocynnau rhatach neu docynnau am ddim i gemau rygbi rhyngwladol ar gyfer ysgolion Cymru. (WAQ39663)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau ag Undeb Rygbi Cymru ynghylch ei bolisi prisiau ar gyfer tocynnau gemau rygbi rhyngwladol, ac, os ydyw, a wnaiff fanylu ar y trafodaethau hynny. (WAQ3969)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y ceisiadau llwyddiannus am arian Amcan 1 yn Nwyrain De Cymru o gymharu â chais aflwyddiannus y Coed Duon. (WAQ39655)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y modd y mae arian Amcan 1 yn rhoi budd i ardaloedd megis y Coed Duon yn Nwyrain De Cymru. (WAQ39656)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a oes

proses apelio ar gael i’r ardaloedd hynny y gwrthodir arian Amcan 1 iddynt. (WAQ39657)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, ymhle y bydd y ddau brosiect peilot arfaethedig yn cael eu cynnal a faint o arian y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyfrannu atynt. (WAQ39684)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, beth yw’r rhesymau dros awgrymu mai Awdurdod Datblygu Cymru yw’r corff mwyaf priodol i gynnal asesiadau. (WAQ39683)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, pa adolygiad a gynhelir cyn y cam datblygu o gynnal prosiect peilot. (WAQ39682)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, pa botensial sylweddol sydd wedi’i nodi o ran technolegau’r môr yn y dyfodol, a pha gamau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau y manteisir yn llawn ar y potensial. (WAQ39681)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, pa anawsterau technegol a chysyniadol y daethpwyd ar eu traws a beth oedd trafodaethau/ casgliad y datblygwyr yn eu cylch. (WAQ39680)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ39303 a WAQ39304, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mathau o dechnoleg tonnau a thechnoleg llanw y cynhaliwyd adolygiad ohonynt, a dweud ymhle y gallaf gael copi o’r adolygiad. (WAQ39679)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn yr ateb i WAQ38677,a wnaiff y Gweinidog ddatgan a gafwyd trafodaethau rhwng ei adran a Chyngor Sir Caerdydd ynghylch ariannu ffordd gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd, ac, os cafwyd, a all roi amcan o natur y trafodaethau hynny. (WAQ39674)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan beth oedd cost ei daith cwch ar hyd arfordir Cymru ym mis Awst 2003 i Fwrdd Croeso Cymru. (WAQ39659) (WAQ36959) **W**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ38945, o ba ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn benodol, yr oedd y 2.4% o ynni adnewyddadwy yn deillio yn 2002. (WAQ39668)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ39676)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**David Davies (Mynwy):** Beth yw'r cyfanswm a dalwyd i ymgynghorwyr a chwmnïau ymgynghori o gyllideb Cyswllt Ffermio. (WAQ39661)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob un o saith elfen eu Cronfa Drosedd (WAQ36919) am y blynyddoedd ariannol 2005-6 a 2006-7. (WAQ39667)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Beth oedd cyfanswm y Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd. (WAQ39666)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa gymorth y mae'r Llywodraeth wedi'i roi i ymgyrch gwybodaeth argyfwng 'Neges mewn Potel' y Llewod. (WAQ39658)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o Gartrefi Nyrsio sydd wedi cau yng Nghymru ers dechrau'r Cynulliad, gan restru'r Cartrefi Nyrsio a'u cyflenwad o welyau fesul ardal awdurdod lleol. (WAQ39672)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynigion sydd gan y Gweinidog i atal y duedd i golli gwelyau nyrsio yng Nghymru. (WAQ39673)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ym mhroses yr Anhwylderau Spectrwm Awtistig i Gymru, ac wrth ei ysgrifennu, a wnaed archwiliad cyffredinol o'r gwasanaethau perthnasol a ddarperir yng Nghymru, ac os gwnaed beth oedd y canlyniad. (WAQ39675)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Ymddiriedolaethau Gwent, Gogledd Morgannwg a Rhondda a Phontypridd i gyhoeddi eu ffigurau MRSA. (WAQ39677)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gyfarwyddo Grwp Monitro Haint Cysylltiedig Gofal Iechyd Cymru i sicrhau bod yr holl ystadegau ar MRSA yn cael eu casglu yn yr un ffordd gan ddefnyddio un set o ddata fel y gellir gwneud cymhariaeth rhwng y gwahanol Ymddiriedolaethau. (WAQ39678)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud yn sicrhau bod Set Ddata Genedlaethol i gymharu'r cyfraddau heintio gydag MRSA yn cael ei sefydlu cyn i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gael ei chyflwyno ar 1 Ionawr. (WAQ39665)

**David Davies (Mynwy):** Faint o arian a dalwyd gan i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ii) y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, i Wasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd Prydain ym mhob un o'r tair blynedd ariannol diwethaf, a faint y mae'n disgwyl ei gael gan i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ii) y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn y flwyddyn ariannol hon. (WAQ39660)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi ffigurau am nifer y Therapyddion Galwedigaethol yng Nghymru oedd newydd gymhwyso ac a adawodd Cymru, neu a aeth i weithio dramor, yn y pum mlynedd diwethaf ers sefydlu'r Cynulliad. (WAQ39664)